**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Ionawr 2019

Annwyl David

Diolch am y cyfle i gyfarfod â chi i drafod eich ymchwiliad Pwyllgor i *Berthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol*. Mae'n ymchwiliad yr wyf yn ei groesawu'n fawr. Mae cylch gorchwyl eich ymchwiliad yn nodi eich bod yn awyddus i edrych yn fanwl ar gysylltiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru â rhwydweithiau a sefydliadau Ewropeaidd, a gwneud argymhellion ar sut y gellir datblygu'r rhain ar ôl gadael yr UE.

Y prif rwydwaith perthnasol yw Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop - **CALRE.** Mae ein Senedd wedi cymryd rhan yn rhwydwaith CALRE ar amryw o lefelau ers y Trydydd Cynulliad. Ers dod yn Llywydd, rwyf wedi cymryd rhan yng Nghyfarfod Llawn 2016 a gynhaliwyd gan senedd Lombardy (yr Eidal) ac yn fwy diweddar mewn Gweithgor ar Amrywiaeth Ieithyddol a Diwylliannol yn Valencia. Rwyf o'r farn bod CALRE yn rhwydwaith gwerthfawr sydd wedi rhoi cyfle i ni drafod a chyfnewid polisi ac arfer seneddol gorau gydag ystod o ddeddfwrfeydd Ewropeaidd. Mae CALRE wedi rhoi cyfleoedd i ddatblygu perthnasau ar lefelau seneddol a phersonol.

Ein perthynas â CALRE yn y dyfodol

Yn anffodus, nid oeddwn i'n gallu mynd i Gyfarfod Llawn CALRE diweddar, a gynhaliwyd gan Senedd Azores yn Horta. Fodd bynnag, gofynnais i ddatganiad gael ei ddarllen i gynulleidfa'r Cyfarfod Llawn o gyd Lefarwyr Ewropeaidd. Mae'r datganiad hwnnw yn hunan-esboniadol ac wedi'i atodi yn **Atodiad A.** Mae'n bleser gennyf ddweud bod adborth cychwynnol ar y datganiad hwn yn awgrymu bod Aelodau CALRE yn fodlon mewn egwyddor, ac yn wir yn frwdfrydig, i hwyluso ein

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

bod yn parhau i gyfranogi ar ôl Brexit; gyda'r union fanylion o bethau ymarferol i'w pennu ar ôl mis Mawrth 2019. Roedd dogfen ddilynol “Reflection about the future of CALRE” a gyhoeddwyd yn dilyn y cyfarfod llawn yn cadarnhau'r dyhead hwn am gydweithredu parhaus ac mae'r detholiad perthnasol wedi'i atodi yn **Atodiad B**.

Fel y gwyddoch, rydym yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau penodol eraill yr UE drwy **Bwyllgor y Rhanbarthau** (CoR) lle cawn ein cynrychioli ar hyn o bryd gan Mick Antoniw AC, ynghyd â Bethan Sayed AC fel yr aelod arall.


Byddwn yn parhau i gymryd rhan ynddo, yn ogystal â *Chyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Cyngor Ewrop,* y mae Vikki Howells AC yn rhan ohoni, tan y byddwn yn gadael yr UE.

Nid wyf yn disgwyl i'n hymgysylltiad â'r rhwydweithiau rhyngwladol eraill yr ydym yn cymryd rhan ynddynt, sef *Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad* (CPA) a *Chymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon* (BIPA), gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan Brexit; er gallent fod yn fwy arwyddocaol i'n Haelodau, yn sgil unrhyw gyfyngiadau a fydd yn ein rhwystro rhan cyfranogi ac ymgysylltu sy'n ddibynnol ar fod yn aelod o'r UE.

Dylwn hefyd ychwanegu er bod eich ymchwiliad yn edrych yn benodol ar rwydweithiau a sefydliadau Ewropeaidd, mae ein Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol yn nodi y byddwn, yn sgil canlyniad refferendwm yr UE, yn mynd ar drywydd cysylltiadau rhagweithiol dwyochrog gyda seneddau Ewropeaidd eraill. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn awyddus i'w ddatblygu fel arweinydd ein Senedd.

Gobeithio y bydd hyn o ddefnydd a diddordeb i waith eich ymchwiliad.

Yn gywir



Elin Jones AC
Llywydd

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

**ANNEX A**

Dear President Ana Luís and fellow CALRE Members

May I firstly extend my warmest greetings to you all from the Welsh Parliament and apologies that I am unable to be with you in person at, what I am sure, is a very special Plenary meeting in the Azores. Can I also put on record my thanks and congratulations to President Ana Luis for her successful chairing of this year's CALRE Presidency.

The United Kingdom is leaving the European Union but we are not leaving Europe.

We in Wales very much value the friendship of our European neighbours and recognise the value of our continued cooperation as parliaments, to impart and exchange best practice between our democracies. I saw this, first hand, when I had the pleasure of attending the 2016 Plenary in Lombardy and, more recently, when I participated in CALRE's Working Group on Language and Cultural Diversity, hosted by the Valencian Parliament.

It is a priority for the National Assembly for Wales to enable a strong institutional response to constitutional change, including the outcome of the EU referendum. We will strive to do this through strengthening inter-parliamentary relations. Our parliamentary committees are actively examining these important matters in great detail.

We as a parliament remain interested in the work of CALRE and wherever possible will gladly contribute to its work in whatever way we can, including sharing best practice and experiences to help inform this work. Whilst recognising that this will no longer be possible as full Members, the fact remains that as a Welsh Parliament, we will continue to be an open and outward facing institution, promoting Wales on the international stage and opening our doors to the world.

Should CALRE be minded to examine ways to formally recognise this offer of continued engagement, I, on behalf of the Welsh Parliament would be willing to examine alternative membership options or formalised relations, which could facilitate our continued relationship and participation in the work of CALRE.

With a heavy heart but in the hope that we will continue to maintain inter-parliamentary relations I, on behalf of the National Assembly for Wales, thank you for the friendship and wish CALRE well in your future endeavours.

ELIN JONES AM, LLYWYDD
NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

**ANNEX B**

Excerpt from “Presidency of CALRE 2018 “Reflection about the future of CALRE” paper

**1.3 Members**

The future of Wales, Scotland and Northern Ireland participation in CALRE, in the context of the exit of the United Kingdom off the European Union, is, naturally, a matter of special importance, and it should be found the better regulatory perspective and solution to keep its inclusion in CALRE.

The challenge to CALRE, in this context, is to guarantee the continuity of the presence and contribution of those members, assuming that CALRE would be clearly weakened in the case of the withdrawal of Wales, Scotland and Northern Ireland, from a quantitative perspective, seeing the number of its members reduced and, in a significant way, the total populational weight of CALRE, and from a qualitative point of view, the lost of the contribution and proactivity of those members.

The members of CALRE welcome the stay of the United Kingdom regions after the Brexit as members of full right and through an exception to the rule that the members of CALRE should be from Member-States of the European Union, although they understand that the matter should be approached only after the exit of the United Kingdom and taking into account the content of its agreement, in the way that only then will be possible to have a clear and extensive view of the future relation, in general, of the United Kingdom with the EU and, particularly, in the scope of the regional and territorial cooperation.